| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **PWYLLGOR SCRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **29 MAWRTH 2012** |
| **TEITL** | **STRATEGAETH ADNEWYDDIAD DEMOCRATAIDD** |
| **AWDUR** | **Huw Jones,<br>Pennaeth Gwasanaeth – Polisi** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **MICK GIANNASI** |

Bydd Aelodau yn cofio i Fwrdd y Comisiynwyr, yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2011, benderfynu cymeradwyo Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd, a hynny mewn ymateb i Orchymyn gan Weinidogion Cymru ym mis Mawrth 2011 a oedd yn nodi bod rhaid i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu strategaeth sy'n hyrwyddo adnewyddiad democrataidd. Mae copi o'r strategaeth wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn - Atodiad 1.

Mae'r strategaeth yn cwmpasu nifer o ffrydiau gwaith allweddol sy'n rhan o siwrnai wella ehangach y Cyngor. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu i'r Bwrdd Gwella.

Ceir diweddariad sy'n adlewyrchu'r cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2011 yn Atodiad 2.

Fe fydd Aelodau'n nodi bod y strategaeth wedi canolbwyntio'n gychwynnol ar baratoi ar gyfer yr etholiadau lleol yn 2012. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau bellach wedi newid yn dilyn cadarnhad bod yr etholiadau wedi'u hail-drefnu i fis Mai 2013 ac fe ddisgwylir cynigion terfynol y Comisiwn Ffiniau. Oherwydd hyn, bydd angen adolygu'r cynllun gweithredu strategol a rhaglenni gwaith cysylltiedig.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor gynnig sylwadau ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith - Atodiad 2 - a nodi bod rhagor o waith wedi ei gynllunio i ddiweddaru'r rhaglen yn ystod chwarter 1af 2012/13.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth – Polisi**
**20/3/12**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr** |
| **Dyddiad** | **5 Medi, 2011** |
| **Pwnc** | **Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Mr Mick Giannasi** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Mr Huw Jones** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Mr Alan Williams** |
| **Natur a rheswm am adrodd:** Mae'r Bwrdd Comisiynwyr wedi gofyn am strategaeth gyffredinol i'w hystyried. | |

| A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw |
|---|
| "Gorchymyn i Gyngor Sir Ynys Môn gan Weinidogion Cymru dan Adran 29 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru ) 2009' i'r Cyngor ar 16 Mawrth 2011 yn nodi bod rhaid i'r Awdurdod datblygu a gweithredu strategaeth sy'n hyrwyddo adnewyddiad democrataidd.<br><br>Cafodd adroddiad cychwynnol sylw gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 16 Gorffennaf 2011.<br><br>Mae'r strategaeth adnewyddiad democrataidd o fewn cyd-destun ehangach, sef gwella trefniadau llywodraethu a chefnogi elfennau o Fframwaith Cynllunio Strategol y Cyngor e.e. y Cynllun Busnes Corfforaethol a'r Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol.<br><br>Er bod pwyslais cychwynnol ar gymryd camau yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau ym Mai 2012, mae adnewyddiad democrataidd yn daith wella llawer ehangach ar gyfer y Cyngor sy'n cynnwys sawl maes gwaith sydd yn derbyn sylw y tu draw i 2012.<br><br>Mae cynllun gweithredu strategol yn cefnogi'r strategaeth ac fe gaiff cynnydd ei fonitro bob chwarter gan y Bwrdd Gwella arfaethedig sydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r Strategaeth yn rhan o flaenoriaethau gwella'r Cyngor ar gyfer 2011/12 a dylid ei ystyried yng nghydestun cyffredinol taith wella'r Cyngor.<br><br>Manteisiwyd ar bresenoldeb y Cyngor yn Sioe Môn fis diwethaf i sefydlu llwyfan i ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth o etholiadau lleol. Mae codi ymwybyddiaeth yn fater ehangach yn y gymuned a rhoddwyd sylw i etholiadau lleol gan y cyfryngau/wasg yn ddiweddar. |

| **B - Ystyriaethau** |
|---|
| Adroddir ar y gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu trwy drefniadau monitro chwarterol i'r Bwrdd Gwella. |

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Dim Sylwadau |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Dim Sylwadau |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim Sylwadau |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | d/b |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Datblygu gwefan newydd i wella'r sianelau gwybodaeth gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol |
| **6** | **Cydraddoldeb** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | Mae'r Strategaeth hon yn hyrwyddo egwyddorion sydd wrth wraidd Mesur Llywodraeth Leol 2009 a Deddf Cydraddoldebau 2010 |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad ehangach grwpiau cymunedol yn y trefniadau democrataidd |
| **8** | **Cyfathrebu** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | Mae cyfathrebu effeithiol gyda gwahanol gydranddeiliaid yn rhan annatod o'r Strategaeth hon a rhaid ei chysylltu gyda strategaethau cefnogol eraill |
| **9** | **Ymgynghori** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | Cyswllt gyda'r Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol |
| **10** | **Economaidd** | d/b |
| **11** | **Amgylcheddol** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | d/b |
| **12** | **Trosedd ac Anrhefn** (gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | d/b |
| **13** | **Cytundeb Canlyniadau** | d/b |

| **CH - Crynodeb** |
| --- |
| Cyflwynir y Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd i'w hystyried a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Comisiynwyr |

| **D - Argymhelliad** |
| --- |
| Gofynnir i'r Bwrdd Comisiynwyr gymeradwyo'r Strategaeth. |

**Enw awdur yr adroddiad: Mr Huw Jones**
**Swydd - Pennaeth Gwasanaeth - Polisi**
**Dyddiad - 19 Awst 2011**

| **Atodiadau:** |
| --- |
| Dim. |

| **Papurau Cefndirol:** |
| --- |
| Adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr 16/07/1.<br>Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd ynghlwm. |

# STRATEGAETH ADNEWYDDIAD DEMOCRATAIDD

**AWST 2011**

**ADNEWYDDIAD DEMOCRATAIDD**

## 1.0 Y Cyd-destun Strategol - Gosod y Llwyfan

Mae Adnewyddiad Democrataidd yn amcan wella allweddol yn y modd y caiff y Cyngor ei Lywodraethu ac o ran ffocws ar ddatblygu sefydliad sydd yn canolbwyntio ar y Dinesydd. Mae sicrhau canlyniadau sydd i fudd i'n Dinasyddion a'n cymunedau yn flaenoriaethau allweddol yng Nghynllun Busnes y Cyngor.

Mae'r Strategaeth hon yn mynd law yn llaw gyda Chynllun Busnes y Cyngor, y Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol, y Strategaeth Gyfathrebu a'r Cynllun Cydraddoldebau Strategol esblygol a dylid ei hystyried yng nghyd-destun ehangach fframwaith cynllunio strategol y Cyngor. Mar hefyd yn rhan o daith wella'r Cyngor ac yn rhan benodol hefyd o amcan gwella'r Cyngor am 2011/12.

## 1.1 Ffocws

Mae Adnewyddiad Democrataidd yn hyrwyddo'r agweddau allweddol isod:

a) **Cynllunio Strategol ac Ymgysylltiad Cymunedol**

- Ymgysylltu gyda dinasyddion a chymunedau i siapio gwaith datblygu polisïau a'r modd y darperir gwasanaethau.

b) **Llywodraethu, Atebolrwydd a Threfniadau Democrataidd**

- Cryfhau a datblygu atebolrwydd lleol ar gyfer perfformiad a chanlyniadau gwasanethau.
- Trefniadau democrataidd lleol ac arweinyddiaeth gymunedol.
- Cynnyddu'r ymdeimlad o ddylanwad a grymuso dinesig.

c) **Scriwtini**

- Cyfleon i gryfhau'r  swyddogaeth Sgriwtini trwy ymgysylltiad cymunedol ehangach.

ch) **Cyfathrebu**

- Cysylltiadau Cyfathrebu rhwng y Cyngor, dinasyddion a chymunedau, e.e. gwefan newydd y Cyngor.

## 2.0 Etholiadau Lleol ac Adnewyddiad Democrataidd

Bydd y Strategaeth hon yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar baratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cyngor Sir a gynhelir ar 3 Mai 2012 (rhan1) caiff y strategaeth ei ddatblybu'n barhaus dros y tymor canol. Bydd hefyd yn rhoi sylw i agweddau perthnasol eraill fel y cyfeirir atynt uchod a meysydd gwaith penodol.

**Gyrwyr Allweddol**

- Deddfwriaeth: Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys amryfal ddyletswyddau gan gynnwys pwerau/dyletswyddau sy'n hyrwyddo democratiaeth leol, gwella cyfranogiad mewn llywodraeth leol a threfniadau ar gyfer cydnabyddiaeth.
- **Proffil Oed:** Oed cyfartalog Cynghorwyr trwy'r wlad yw 58 gyda dim ond 3.5% dan 30, er bod traean y Sir yn yr oedran hwn.
- **Rhyw:** Er mai merched y rhan fwyaf o'r boblogaeth, sef 52%, does ond dwy Gynghorydd benywaidd yn Ynys Môn.
- **Demograffiaeth:** o'r 40 o ranbarthau etholiadol yn y Sir a gynrychiolir gan un Cynghorydd Sir, mae'r nifer o etholwyr yn amrywio rhwng 681 ac 1809 fesul rhanbarth. Gofynnwyd i'r Comisiwn Ffiniau adolygu'r ffiniau etholiadol ar gyfer y Sir.

**Materion a all gael effaith ar lefel y diddordeb mewn etholiadau lleol**

- Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl Cynghorwyr yn dilyn newidiadau deddfwriaethol.
- Bydd angen adolygu materion cydbwysedd bywyd/gwaith, e.e. amseriad cyfarfodydd pwyllgor i gwrdd â'r rôl fel Cynghorydd.

## 2.1 Nodau ac amcanion cynyddu cyfranogiad mewn etholiadau lleol

***NOD: Sicrhau bod y gynrychiolaeth ddemocrataidd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn yn adlewyrchu cyfansoddiad cymunedau lleol.***

**Amcanion:**

- Bod Aelodau'r Cyngor Sir yn gynrychioliadol o ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn.
- Targedu mwy o ymgeiswyr posib o grwpiau sydd wedi eu tan gynrychioli ar hyn o bryd yn y Cyngor, sef merched a phobl ifanc.
- Dweud wrth ein cymunedau beth mae Cynghorwyr yn ei wneud trwy amryfal sianelau gwybodaeth.
- Sicrhau bod mwy o bobl yn pleidleisio.

## 3.0 Gweithredu'r Strategaeth

Mae'r Cynllun Gweithredu sy'n cefnogi'r Strategaeth hon yn nodi'r gweithgareddau allweddol y bydd rhaid eu cyflawni yn y cyfnod hyd at etholiadau'r Cyngor a thu draw i hynny.

Mae'r meysydd a amlygir isod yn cefnogi'r strategaeth adnewyddiad democrataidd:

- ***Cydraddoldebau:***
    - Ymgysylltu gyda grwpiau gan dargedu clystyrau penodol sydd wedi eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y Cyngor Sir.
    - Mwy o fynediad i wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys sut i fod yn Gynghorydd.
    - Codi ymwybyddiaeth o gofrestru etholiadol mewn grwpiau a chlystyrau sydd yn cael eu tangynrychioli.
- ***Scriwtini ac Atebolrwydd:***
    - Parhau i ddatblygu'r rhaglenni gwaith i gryfhau atebolrwydd lleol ar gyfer darparu gwasanethau.

- ***Rhaglen Datblygu Aelodau a Chymorth Cymheiriaid:***
  - Bydd yr agwedd hon wedi ei sefydlu’n gadarn yn y rhaglen i ddatblygu Aelodau.
  - Dysgu o sefydliadau tebyg eraill.
- ***Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Chydranddeiliaid:***
  - Gweithredu Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol a Strategaeth Ymgynghori.

## 4.0 Risgiau a Strategaethau Lliniaru

- Bydd cynnydd o ran darparu Strategaeth yn cael ei reoli trwy Swyddfa Rheoli Rhaglen y Cyngor ac adroddir ar gynnydd i Fwrdd y Comisiynwyr a’r Bwrdd Gwella. Mae templed manylach yn cael ei boblogi i gynorthwyo trefniadau monitro perfformiad.

## 5.0 Cynllun Gweithredu Strategol

| Blaenoriaethau a Gweithgareddau Cefnogol | Gweithredu | Canlyniad | Amserlen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| **Cymryd rhan mewn etholiadau lleol** | Ymgyrch gyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio sianelau cyfathrebu gwahanol i gyrraedd pob sector gan gynnwys gwefan y Cyngor a chyfryngau cymdeithasol. Defnyddio’r Wythnos Democratiaeth Leol fel un llwyfan. | Cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr | Awst 2011 - Mawrth 2012 Wythnos Democratiaeth Leol 10 - 14 Hydref 2011. | Adain Etholiadau mewn cydweithrediad gyda Swyddfa’r Prif Weithredwr |
| | Gweithdai ar gyfer cydranddeiliaid sydd â diddordeb | Targedu camau i godi ymwybyddiaeth | Hydref 2011 | Adain Etholiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymorth gan gymheiriaid | Rhannu arferion gorau | Awst 2011 | Adain Etholiadau |
| | Adolygu trefniadau cofrestru etholiadol | Cynnydd yn nifer yr etholwyr sydd wedi cofrestru | Awst 2011 - Ebrill 2012 | Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau |
| **Cydraddoldebau** | Datblygu cynllun cydraddoldeb strategol | Cynyddu mynediad i wasanaethau'r Cyngor a Chyfranogiad mewn ymgysylltiad democrataidd | Mehefin 2011 - Ebrill 2012 | Swyddfa Prif Weithredwr |
| **Scriwtini ac atebolrwydd** | Datblygu rhaglenni gwaith pwyllgorau | Cryfhau rôl dinasyddion a chymunedau o ran datblygu polisïau a monitro perfformiad | Mehefin 2011 ymlaen | Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Adain Scriwtini |
| **Datblygu Aelodau a Chymorth Cymheiriaid** | I sefydlu yn y rhaglen datblygu Aelodau i gefnogi'r rolau a chyfrifoldebau | Cefnogi Cynghorwyr yn eu rolau Sefydlu adnewyddiad democrataidd fel rhan o ddiwylliant y Cyngor | Mai 2011 ymlaen | Gwasanaeth AD |
| **Ymgysylltiad Cymunedol** | Gweithredu Strategaethau ymgysylltiad cymunedol a chyfathrebu | Sefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd a gwella sianelau cyfathrebu | Hydref 2010 ymlaen | Swyddfa'r Prif Weithredwr |

| Blaenoriaethau a Gweithgaredd-au Cefnogol | Gweithredu | Canlyniad | Amserlen | Cyfrifoldeb | Cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymryd rhan mewn etholiadau lleol** | Ymgyrch gyhoeddus-rwydd a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio sianelau cyfathrebu gwahanol i gyrraedd pob sector gan gynnwys gwefan y Cyngor a chyfryngau cymdeithasol.<br><br>Defnyddio'r Wythnos Democratiaeth Leol fel un llwyfan.<br><br>Gweithdai ar gyfer cydranddeiliaid sydd â diddordeb<br><br>Cymorth gan gymheiriaid<br><br>Adolygu trefniadau cofrestru etholiadol | Cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr<br><br>Targedu camau i godi ymwybydd-iaeth<br><br>Rhannu arferion gorau<br><br>Cynnydd yn nifer yr etholwyr sydd wedi cofrestru | Awst 2011 - Mawrth 2012<br><br>Wythnos Democrat-iaeth Leol 10 - 14 Hydref 2011.<br><br>Hydref 2011<br><br>Awst 2011<br><br>Awst 2011 - Ebrill 2012 | Adain Etholiadau mewn cydweithrediad gyda Swyddfa'r Prif Weithredwr<br><br>Adain Etholiadau<br><br>Adain Etholiadau<br><br>Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau | Mae cyflawni Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 wedi canolbwyntio ar godi proffil yr etholiadau lleol yn 2012 trwy gyfrwng:<br><br>• Sioe Môn<br><br>• cyhoeddusrwydd a drefnwyd trwy gyfryngau cymdeithasol a'r Wythnos Democratiaeth Lleol (Hydref 2011)<br><br>• Sesiynau galw i mewn a gynhaliwyd mewn gwahanol ardaloedd (Hydref 2011)<br><br>O ganlyniad i'r cadarnhad bod etholiadau Mai 2012 wedi'u gohirio, ynghyd â newidiadau i'r ffiniau, bydd angen ail-broffilio gwaith yn 2012/13.<br><br>Gan ein bod wedi cael gwybod am ddyddiad yr etholiad yn 2013, mae amserlen o weithrediadau i mewn i'r flwyddyn nesaf yn cael ei datblygu. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddusrwydd am y ffiniau newydd ac ymwybyddiaeth i ymgeiswyr posibl.<br><br>Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cytuno i gefnogi ein gwerthgareddau i mewn i 2013.<br><br>Mae defnydd cyhoeddusrwydd wedi cael ei adolygu a'i gynnwys yn y rhybudd trethi sy'n mynd i bob eiddo ar yr ynys. |

| Blaenoriaethau a Gweithgaredd-au Cefnogol | Gweithredu | Canlyniad | Amserlen | Cyfrifoldeb | Cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bydd yr ymgyrch hysbysebu cenedlaethol ar gyfer yr etholiadau eraill yn 2012 hefyd yn fodd o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yma.<br><br>Bydd y gwaith presennol o ran paratoi ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu ar 15 Tachwedd hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu a hyrwyddo'r gwaith yma.<br><br>Wedi cael cefnogaeth llawn gan y Tim sy'n gyfrifol am wefan y Cyngor a gwaith yn cael ei wneud eisoes ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo yn y dyfodol.<br><br>Paratoadau mewn llaw ar gyfer canfas blynyddol cynnar – 2 Gorff i 16 Hydref – er mwyn cwblhau'r Gofrestr Etholwyr cyn etholiad Comisiynydd yr Heddlu. |
| **Cydraddoldeb** | Datblygu cynllun cydraddoldeb strategol | Cynyddu mynediad i wasanaethau'r Cyngor a Chyfranogiad mewn ymgysylltiad democrataidd | Mehefin 2011 - Ebrill 2012 | Swyddfa Prif Weithredwr | Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor Sir ym Mawrth 2012.<br><br>Rhaglen waith wedi'i datblygu ar gyfer 2012/13 i gefnogi'r Strategaeth. |
| **Scriwtini ac atebolrwydd** | Datblygu rhaglenni gwaith pwyllgorau | Cryfhau rôl dinasyddion a chymunedau o ran datblygu polisïau a monitro perfformiad | Mehefin 2011 ymlaen | Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Adain Scriwtini | Rhaglenni gwaith y pwyllgorau gweithredol a sgriwtini wedi'u datblygu'n rhannol a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Y cam nesaf fydd eu datblygu ymhellach i gymryd i ystyriaeth rôl sgriwtini o ran gyrru gwelliant corfforaethol trwy gysylltu'r pwyllgor gweithredol a'i raglenni gwaith gyda'r Cynllun Busnes |

| **Blaenoriaethau a Gweithgaredd-au Cefnogol** | **Gweithredu** | **Canlyniad** | **Amserlen** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2012** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Corfforaethol trwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n cael ei gyflwyno.<br><br>Bydd y Mesur Llywodraeth Leol 2011 yn rhoi dyletswyddau newydd i'r Cyngor yn y dyfodol, yn benodol i sgriwtini yn Adran 62(4), lle mae'n ofynnol bod sgriwtini'n cymryd i ystyriaeth farn y cyhoedd ac yn annog cyfranogiad uniongyrchol yn y maes sgriwtini. |
| **Datblygu Aelodau a Chymorth Cymheiriaid** | I sefydlu yn y rhaglen datblygu Aelodau i gefnogi'r rolau a chyfrifoldebau | Cefnogi Cynghorwyr yn eu rolau Sefydlu adnewyddiad democrataidd fel rhan o ddiwylliant y Cyngor | Mai 2011 ymlaen | Gwasanaeth AD | Gweithdai i aelodau ehtoledig ar y maes llywodraethu wedi'u cynnal. |
| **Ymgysylltiad Cymunedol** | Gweithredu Strategaethau ymgysylltiad cymunedol a chyfathrebu | Sefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd a gwella sianelau cyfathrebu | Hydref 2010 ymlaen | Swyddfa'r Prif Weithredwr | Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol a chynllun gweithredu wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd y Comisiynwyr – Medi 2011. Roedd blwyddyn 1 yn canolbwyntio ar:<br><br>• Cyfarfodydd ymgynghorol a gynhaliwyd mewn gwahanol ardaloedd yn ystod Hydref 2011 ar raglenni gwaith allweddol – Bydd y model yma'n cael ei defnyddio hefyd yn ystod 2012/13 i gefnogi'r gwaith o baratoi Cynllun Integredig Sengl, gan cynnwys cynllunio cymunedol a gwaith partneriaethol. |

| **Blaenoriaethau a Gweithgaredd-au Cefnogol** | **Gweithredu** | **Canlyniad** | **Amserlen** | **Cyfrifoldeb** | **Cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2012** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Gwefan newydd y Cyngor wedi'i lansio – Gorffennaf 2011.<br>• Arolwg Preswylwyr wedi'i gynnal ym mis Chwefror 2012 ar wasanaethau'r Cyngor ac adroddiad arno wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Gwella ym mis Mawrth 2012.<br>• Cytundeb Siarter drafft wedi'i ddatblygu i gryfhau'r berthynas gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac ymgynghoriad i'w gynnal arno Ebrill/Mai 2012, gan gynnwys y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.<br>• Defnyddio cyfryngau cymdeithasol, hy Facebook, i hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor<br>• Arweiniad i staff wedi'i baratoi a'i gynnwys ar y Mewnrhwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth am arferion da o ran ymgynghori.<br>• Strategaeth Gyfathrebu wedi'i diweddaru ym Mawrth 2012 ac fe fydd angen ei chyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod chwarter 1af 2012/13.<br><br>Bydd angen datblygu Rhaglen ar gyfer Blwyddyn 2 yn ystod chwarter 1af 2012/13 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. |